Dyfodol Ni
OUR FUTURE

# EIN HADDEWID:

## 1 DAN ARWEINIAD IEUENCTID

Mae lleisiau pobl ifanc yn ganolog i'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddyn nhw. Gallant ddefnyddio'r gwasanaeth a ffefrir ganddyn nhw i feithrin annibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn gwasanaethau a arweinir gan bobl ifanc, gan annog ymgysylltiad a brwdfrydedd yn yr hyn a wnawn.

Mae gwasanaethau'n ymateb i anghenion pobl ifanc leol, fel y'u diffinnir ganddyn nhw, gan gynnig cymorth hygyrch lle bynnag y mae'n bosibl, gyda chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sy'n cael eu hystyried eu bod mewn mwy o berygl, dan anfantais neu ag anghenion uwch.

## 2 CYNWYSOLDEB, CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Wrth iddyn nhw dyfu'n oedolion, mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cynnwys yn eu hardal leol a gallant gael mynediad i'r cymorth y maen nhw'n penderfynu sydd ei angen arnyn nhw. Ni ddylent deimlo'n ynysig nac yn wahanol oherwydd dewis iaith, ethnigrwydd, anabledd, rhywioldeb, cenedligrwydd, statws economaidd-gymdeithasol, anghenion addysgol arbennig, materion iechyd meddwl, crefydd neu unrhyw nodwedd arall.

Dylai'r gwasanaethau ieuenctid lleol helpu i wella amgylchiadau bywyd pobl ifanc o bob cefndir fesul cynnig cymorth i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r rhwydweithiau sydd eu hangen arnyn nhw i gael mynediad at gyfleoedd a manteisio arnyn nhw.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# 3 PARCH

Caiff anghenion a dymuniadau pobl ifanc lleol eu hystyried lawn cymaint ag unrhyw grŵp cymunedol arall. Dylent deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae ieuenctid lleol yn cael eu hannog i gymryd rhan yn eu cymunedau a mwynhau cyfleoedd yn eu hardal heb boeni am farn neu stereoteipio negyddol.

# 4 ANSAWDD, DIOGELWCH A LLESIANT

Darperir gwasanaethau mynediad agored o ansawdd da gan staff â hyfforddiant diogelu sydd â chysylltiadau â chymorth pellach os oes angen. Mae ein gwasanaethau yn helpu i gadw pobl ifanc yn ddiogel ac yn cefnogi eu hiechyd meddwl, emosiynol a chorfforol, yn gwella eu llesiant cymdeithasol ac economaidd. Mae'n sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at addysg, dysgu anffurfiol a gweithgareddau o'u dewis.

# 5 RHOI GRYM

Mae gwasanaethau'n rhoi grym i bobl ifanc i symud ymlaen ac ymgysylltu â chyflogaeth, addysg a hyfforddiant, ac i gymryd rhan weithredol yn eu cymunedau lleol. Gwrandewir ar bobl ifanc a gallant wneud newidiadau cadarnhaol i'w cymunedau, a deall sut i ymgysylltu â gwneud dewisiadau.

# 6 POSITIFRWYDD

Canolbwyntia gwasanaethau ar ddod â'r gorau allan o bob unigolyn, gan eu cynorthwyo i ddatblygu eu sgiliau a'u priodoleddau, yn hytrach na cheisio 'trwsio problem'.

# EIN PARTNERIAID

- AREA 43 – Information Support Training
- CAVO – Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion – Ceredigion Association of Voluntary Organisations
- Gwasanaeth Ieuenctid Ceredigion Youth Service
- Stage Goat
- Amethyst
- RAY Ceredigion
- Girlguiding Ceredigion – Rydym yn darganfod, rydym yn tyfu – We discover, we grow
- PLETHU
- meddwl.org – @gwefanmeddwl
- Llandysul Paddlers
- Mind Aberystwyth
- Cyngor Sir Ceredigion County Council
- Menter Gorllewin Sir Gâr
- Mighty Ducks Disability Sports Club Aberystwyth
- 1872 Prifysgol Aberystwyth University
- Borth Community Hub – Hwb Cymunedol Borth